# Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-05-08 (p4): 10 Ebrill 2008

## Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhestru'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd am ddeisebau a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor. Derbyniwyd llawer o'r wybodaeth ddiweddaraf fel gohebiaeth. Lle mae'n berthnasol, mae copïau o ohebiaeth wedi eu cynnwys fel atodiadau i'r papur hwn.

### (i) P-03-066 Rheilfordd o Abertawe i'r Mwmbwls

**Geiriad y Ddeiseb**

I Aelodau Cyffredin Anrhydeddus Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon sydd wedi ymgynnull yn y Senedd.

Mae deiseb wylaidd Mr Perrott ac eraill yn nodi

bod dinasyddion wedi mwynhau gwasanaeth rheilffordd i deithwyr, y cyntaf a'r hynaf o'i fath yn y byd, rhwng Abertawe a'r Mwmbwls o 1807 tan 1959. Pan ddaeth Deddf Trafnidiaeth De Cymru 1959 i rym, cafodd Rheilffyrdd Ystumllwynarth a'r Mwmbwls eu dirwyn i ben mewn amgylchiadau dadleuol ac anghyfiawn, a hynny yn groes i ddymuniadau'r 12,311 o bobl a oedd wedi llofnodi deiseb yn gwrthwynebu'r Ddeddf breifat a lleol hon.

Felly, mae'r deisebwyr yn erfyn ar i'ch Tŷ anrhydeddus gefnogi rheilffordd Abertawe i'r Mwmbwls fel system drafnidiaeth gyhoeddus arloesol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain a gaiff ei gyrru gan ynni adnewyddadwy, ac yn annog y Llywodraeth i ymchwilio, law yn llaw â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, i ddichonoldeb ailosod ac adfer y rheilffordd er budd dinasyddion Abertawe.

**Cefndir**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 20 Medi 2007. Yn y cyfarfod yma cytunodd y Pwyllgor dylai'r Cadair ysgrifennu at Cyngor Sir a Dinas Abertawe i ofyn am gopi o'r astudiaeth dichonolrwydd diweddarach.

Bu'r Pwyllgor yn trafod yr astudiaeth dichonolrwydd yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2008, a chytunwyd i ofyn i Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i ymgymryd dadansoddiad pellach. Mae copi o'r dadansoddiad hwn yn awr wedi'i gyhoeddi ac mae ynghlwm yn atodiad PET(3) 04-08 Papur 4A.

### (ii) P-03-067 Tir y 'Miner's Welfare', Ty-Du, Nelson - Llythyr gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Geiriad y Ddeiseb**

Rydym ni, sydd wedi llofnodi'r ddeiseb hon ac sy'n byw ym mhentref Nelson, yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw ddatblygiad ar y safle uchod gan yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau. Cafodd Awdurdod Datblygu Cymru'r safle 7.5 erw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a oedd wedi'i brynu ar ran yr Awdurdod oddi wrth yr ymddiriedolwyr, heb yn wybod i'r cyn-lowyr lleol, am bris chwerthinllyd o isel. Nid cyn-lowyr oedd yr ymddiriedolwyr hyn ond cyn-gynghorwyr dosbarth lleol.

Mae'r tir hwn bellach yn eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru a gofynnwn iddi ddychwelyd tir y 'Welfare', sydd bellach yn ardal wledig agored sy'n llawn harddwch naturiol, coed hynafol, coetir, gwrychoedd a bywyd gwyllt amrywiol, i eiddo trigolion y pentref i'w ddefnyddio gennym ni a chenedlaethau i ddod. Dyna oedd bwriad y glowyr lleol pan fu iddynt brynu'r tir hwn a thalu amdano. Rydym eisoes wedi cyflwyno deiseb i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n galw arno i hepgor y tir o'i Gynllun Datblygu Lleol.

**Cefndir**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 20 Medi 2007. Derbyniodd bapur gan wasanaeth cyfreithiol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar 22 Tachwedd 2007, a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, a Dirprwy Brif Weinidog Cymru.

Derbyniodd y Cadeirydd ymateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar 10 Chwefror 2008. Bu'r Pwyllgor yn trafod hyn yn ei gyfarfod ar 21 Chwefror 2008, a chytunwyd i aros am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog.

Ers y cyfarfod hwn, mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi ysgrifennu at y Cadeirydd ar 19 Chwefror 2008.

Ysgrifennodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar 05 Mawrth. Dywedodd hi:

'I have considered the issues associated with the application in the light of the Welsh Assembly Government's policy on call-in (detailed in Planning Policy Wales) and conclude that they do not raise issues which warrant taking it out of the hands of the local planning authority. In view of this, I do not consider that the application should be called in for determination by Welsh Ministers and it is now for Caerphilly County Borough Council to determine the application as it sees fit.'

Mae'r llythyr ar gael yn llawn fel PET(3) 05-08 Papur 4B.

Ers derbyn y llythyr, mae'r prif ddeisebwr wedi rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor for Cyngor Sir Caerffili wedi rhoi caniatâd cynllunio am y datblygiad ar y 5 Mawrth 2008.

## (iii) P-03-078 Sgrinio Canser

**Geiriad y Ddeiseb**

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn am weld Is-bwyllgor yn cael ei sefydlu ar unwaith i adolygu'r systemau sgrinio ar gyfer yr amrywiaeth o gyfundrefnau canser ym mhoblogaeth Cymru.

Rwy'n llwyr o blaid y dull hwn o gynnal trafodaeth i annog clinigwyr, cleifion, gwleidyddion, gwleidyddion a gweinyddwyr yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru i fynd ati, cyn gynted â phosibl, i drafod, adolygu a newid, lle bo angen, y systemau sgrinio ar gyfer gwahanol fathau o ganser, er lles dynion, merched a phlant Cymru yn y dyfodol.

**Cefndir**

Mae'r ddeiseb yn galw am sefydlu is-bwyllgor i adolygu'r systemau sgrinio ar gyfer yr amrywiaeth o gyfundrefnau canser yng Nghymru. Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd a chytunodd y pwyllgor i ofyn i'r deisebwyr i baratoi datganiad byr yn amlinellu'r hyn yr oeddynt yn gobeithio'i gyflawni.

Bu'r pwyllgor yn trafod y ddeiseb eto ar 6 Rhagfyr gan gytuno i ofyn i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ystyried holi Llywodraeth Cynulliad Cymru am hynt y gwaith o weithredu argymhellion yr adroddiad a gafodd ei gyhoeddi gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol am wasanaethau canser yng Nghymru. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol wedi ei derbyn, sy'n egluro:

'y bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Lleol ar 16 Ebrill ar gyfer sesiwn graffu gyffredinol, felly bydd cyfle i'r aelodau drafod y wybodaeth ddiweddaraf â hi bryd hynny'

## (iv) P-03-080 Hen Dy'r Ysgol

**Geiriad y Ddeiseb**

'Hoffwn alw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diddymu'r penderfyniad a wnaed gan y Swyddfa Gymreig ym 1989, i gyflwyno Offeryn Statudol yn rhoi'r hawl i Ymddiriedolaeth Esgobaeth Bangor gael gwared â'r eiddo a elwir Hen Ysgol a Thŷ'r Ysgol, Caergeiliog.'

**Cefndir**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 31 Ionawr 2008. Cytunwyd i aros am ragor o gyngor cyfreithiol cyn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Mae'r prif ddeisebwr wedi nodi bod ei ddeiseb yn seiliedig ar dystiolaeth y gall ef ei ddarparu sy'n cwestiynu perchnogaeth yr eiddo hwn. Mae'r deisebwr wedi gofyn am ganiatâd i gyflwyno'i achos i'r Pwyllgor, gan ei fod yn teimlo mai dyma'r unig ffordd y gellir egluro'i ddeiseb yn llawn.

Yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2008, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Bwrdd Esgobaethol (perchennog presennol yr eiddo) i ofyn iddynt roi eu safbwynt nhw ar y sefyllfa. Cafwyd llythyr gan y Bwrdd Esgobaethol ar 20 Mawrth 2008 yn dweud bod y mater yn awr yn nwylo'u cyfreithiwr, David Hooson o Swayne Johnson. Mewn llythyr a gafwyd wedyn gan Swayne Johnson, cafwyd amlinelliad o'r camau yr oeddynt hwy'n bwriadu eu cymryd yn y cyswllt hwn.

Mae copi o'r ddau lythyr wedi ei atodi fel PET(3) 05-08 Papur 4C a PET(3) 05-08 Papur 4D.

## (v) P-03-081 Rheoliadau'n ymnweud ag Astudiaethau Blaenorol

**Geiriad y Ddeiseb**

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ychwanegu at y galwedigaethau sydd wedi'u heithrio, a restrir uchod, er mwyn cynnwys unrhyw gwrs gradd i israddedigion sy'n rhagofyniad cyfreithiol, gorfodol i gymhwyso neu gofrestru mewn galwedigaeth benodol. Dyma rai enghreifftiau o gyrsiau o'r fath:

BSc/Op i gofrestru fel Optometrydd

MPharmacy i gofrestru fel Fferyllydd

Rydym yn annog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gryf i weithredu'r newidiadau hyn fel mater o flaenoriaeth, gan sicrhau bod y newidiadau'n ôl-weithredol os yw hynny'n bosibl.

**Cefndir**

Mae'r deisebwyr yn dweud bod y Rheoliadau Benthyciadau Myfyrwyr fel ag y maent ar hyn o bryd yn gwahardd myfyrwyr sydd â gradd anrhydedd eisoes rhag gwneud cais am fenthyciad myfyriwr ar gyfer costau byw. Dywedant fod myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd

sy'n arwain yn y pen draw at gymhwyster fel meddyg, deintydd, milfeddyg, pensaer, pensaer tirlunio, dylunydd tirlunio, rheolwr tirlunio, cynllunydd trefi neu gynllunydd gwlad a thref yn cael eu heithrio o'r rheol hon. Mae'r ddeiseb yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i estyn yr eithrio uchod i gynnwys unrhyw gwrs gradd ar gyfer israddedigion sydd yn rhaganghenraid gorfodol yn ôl y gyfraith ar gyfer cymhwyso a chofrestru mewn proffesiwn arbennig.

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2007. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ofyn am eglurhad o'r rheoliadau presennol yn ymwneud a Benthyciadau i Fyfyrwyr ac i holi ynglyn â'r posibilrwydd o newid y rheoliadau presennol. Ymatebodd y Gweinidog ar 27 Chwefror 2008, mae copi o'r llythyr hwn i'w weld fel atodiad PET(3) 04-08 Papur 4E

## (vi) P-03-03-085 Meddygfeydd yn Sir Fynwy

### Geiriad y Ddeiseb

Rydym ni feddygon ym Meddygfa'r Laurels, Meddygfa Eyton Place a Chanolfan Feddygol Allt Goch yn rhwystredig (fel yr ydych chi mae'n siŵr) oherwydd yr anawsterau a gawn wrth geisio cynnig digon o apwyntiadau ar gyfer ein cleifion.

Fel y gwyddoch,  rydym wedi'n cyfyngu'n llwyr gan faint ein hadeilad ac mae gwir angen symud i safle mwy - mewn Canolfan Gofal Sylfaenol newydd os oes modd.

Mae'r cynnydd yn hyn o beth wedi dod i ben yn dilyn penodiad diweddar y Gweinidog Iechyd newydd a hoffem ddod â'n pryderon i'w sylw.

Gofynnwn i chi arwyddo'r ddeiseb hon i gefnogi'n hymdrechion i brysuro'r broses hon;

"Fel cleifion mewn Meddygfa yn Sir y Fflint, gofynnwn i'n Haelod Cynulliad, Mrs Sandy Mewies, roi pwysau ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu Canolfan Gofal Sylfaenol newydd ar fyrder"

### Cefndir

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 21 Chwefror 2008. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn iddynt egluro'u safbwynt nhw ar y ganolfan gofal sylfaenol arfaethedig y mae'r ddeisbeb yn cyfeirio ati. Mae ymateb Andrew Gunnion, Prif Weithredwr o Bwrdd Iechyd Lleol Sir Y Fflint wedi cael ei dderbyn. Mae copi o'r llythyr hwn Mae copi o'r llythyr hwn ynghlwm yn atodiad PET(3) 04-08 Papur 4F.

## (vii) P-03-089 Ysgolion Cymunedol Cymru

### Geiriad y Ddeiseb

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal cymunedau Powys, sir fwyaf gwledig Cymru, ac i atal a gwrth-droi'r pwysau sydd ar Gyngor Sir Powys i gau'r ysgolion sy'n galon y cymunedau hynny.'

### Cefndir

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2008. Derbyniwyd mwy o wybodaeth gan y deisebwyr, a chafodd ei ystyried ar y 17 Ionawr 2008. Yn y cyfarfod yma, cytunodd yr aelodau i wahodd y deisebwyr i fynychu cyfarfod pwyllgor er mwyn cyflwyno eu hachos, ac fe wnaethant nhw hyn yn cyfarfod nesa'r pwyllgor ar 21 Chwefror 2008. Yn dilyn ei gyflwyniad, cytunodd y pwyllgor i'r camau canlynol

Gofyn i Estyn egluro sut y maent yn dehongli'r cyfarwyddyd presennol, ac unrhyw ran a fu ganddynt yn y broses o gau ysgolion ym Mhowys

Ysgrifennu at y Pwyllgor Datblygu Gwledig a'r Pwyllgor Menter a Dysgu i ofyn iddo ystyried  rhinweddau Polisi Addysg Gwledig trawsbynciol.

Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am amserlen ar gyfer adolygu Cylchlythyr 23/02.

Mae Cadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig a Prif Arolygydd Estyn wedi ymateb i ymholiadau'r pwyllgor, mae copi o'r ddau lythyr ynghlwm yn PET(3) 04-08 Papur 4G a 4H yn ôl eu trefn

## (viii) P-03-093 Aberddawan

### Geiriad y Ddeiseb

'Rydym ni'r deisebwyr yn ceisio gweithredu amodau mwy tyn ar lygredd o orsaf pŵer Aberthaw. Rydym yn gofyn am eich cymorth er mwyn gorfodi'r Asiantaeth yr Amgylchedd i edrych eto ar y gwendidau yn eu trwyddedu (drafft) newydd ar gyfer gorsaf pŵer Aberthaw, yn gyhoeddedig yn Nhachwedd 2007'

### Cefndir

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2008. Yn y cyfarfod hwn cytunodd y Pwyllgor i ofyn i

dîm cyfreithiol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad baratoi nodyn briffio cyfreithiol, gofyn i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau i baratoi nodyn briffio a gofyn am ragor o wybodaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae’r Briffio cyfreithiol a’r Papur MRS wedi eu derbyn ac wedi ei atodi fel PET(3) 04-08 Papur 4I. Mae’r papur gan yr Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ei atodi fel PET(3) 04-08 Papur 4J.

### (ix) P-03-098 Arglwydd Prys-Davies

#### Geiriad y Ddeiseb

Rydym wedi cael ar ddeall fod y Cynulliad wedi dyfarnu o blaid Awdurdod Addysg Rhondda Cynon Taf parthed y weithred o newid enw Ysgol Gyfun Rhydfelen, a'i ddull o sicrhau'r newid hwn.

Mae hyn yn destun syndod a gofid i ni. Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau pellgyrhaeddol o safbwynt pwerau a hawliau byrddau llywodraethol ysgolion. Mae hefyd, wrth gwrs, yn cadarnhau penderfyniad di-sail a diangen yr Awdurdod i ddileu enw ysgol sydd â lle mor amlwg yn hanes Addysg Cymru, a hynnu'n gwbwl groes i'r farn a leisiwyd yn gyson gan lywodraethwyr yr ysgol, y rhieni, disgyblion, trwy Gyngor yr Ysgol, a staff.

Deallwn fod yr Arglwydd Gwilym Prys Davies eisoes wedi cysylltu trwoch chi ag aelodau 'r Pwyllgor Deisebau. Carem ategu ei gais am ddiwygiad cyflym o'r is-deddfwriaethau perthnasol, gan ddychwelyd yr hawl i newid enw ysgol i'w llywodraethwyr.'

#### Cefndir

Bu’r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2008. Cytunodd y Pwyllgor i ddisgwyl am ymateb y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i lythyr yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies cyn ystyried cau'r ddeiseb yn ffurfiol. Cafwyd copi o’r llythyr hwn (ynghlwm yn atodiad PET(3) 05-08 Papur 4K) ac mae’n amlinellu barn y Gweinidog mai’r AALl ddylai fod â’r pwer i enwi ysgolion ac nad oedd unrhyw gynlluniau i newid y ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae’r deisebwyr wedi ysgrifennu at y Cadeirydd i rhoi llis I ei gwrthwynebiad i penderfyniad y Gweinidog.

Mae llythyr y deisebwyr wedi ei atodi fel PET(3) 04-08 Papur 4L.

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

### Ebrill 2008